

Ymchwiliad i gŵyn  
gan Mr P, Mrs H a Mr S  
yn erbyn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Adroddiad gan  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Achos: 201702418, 201702773 a 201703369

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	1
Crynodeb	2
Y gŵyn	4
Ymchwiliad	4
Deddfwriaeth perthnasol	4
Y digwyddiadau cefndir	6
Tystiolaeth Y Bwrdd Iechyd	8
Dadansoddiad a chasgliadau	9
Argymhellion	11

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hapgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynwyr fel Mr P, Mr H a Mr S.

## Crynodeb

Cwynodd yr achwynwyr, Mr P, Mr H a Mr S am oedi wrth benderfynu ar ôl-hawliadau am ofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG.<sup>1</sup> Ar yr adeg y gwnaed y cwynion i'r Ombwdsmon, nid oedd yr un o'r achwynwyr wedi derbyn penderfyniad o'u hawliadau.

Gosododd y Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd bryd hynny) system lle'r oedd ôl-hawliadau a gyflwynwyd i fyrddau iechyd unigol rhwng Awst 2010 ac Ebrill 2014 (a elwir yn "achosion Cam 2") yn cael eu trosglwyddo yn bennaf i Fwrdd Iechyd Addysg Powys ("y Bwrdd Iechyd") i'w penderfynu. Ym Mehefin 2014, penododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau yn dynodi na ddylid hawliadau o'r fath gymryd mwy na dwy flynedd i'w prosesu. Yn 2016, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd broses newydd, dau gam, ar gyfer y rheolaeth o'r nifer mawr o achosion neilltuol Cam 2. Mae hyn yn cynnwys adolygiad rhagarweiniol o'r hawliad, a all arwain at gynnal adolygiad llawn o gyfnod byrrach na'r hyn y gofynnwyd amdano.

Cafodd hawliad Mr P ei wneud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 17 Mai 2013, a'i drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yng Ngorffennaf 2014. Ar 17 Awst 2017, cafodd Mr P ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad Cam 1 ei hawliad, ac y byddai'r adolygiad Cam 2 yn rhan o'r cyfnod a honnir.

Cafodd hawliad Mr H ei wneud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y 13 Mawrth 2013, a'i drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yng Ngorffennaf 2014. Ar 18 Awst 2017, cafodd Mr P ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad Cam 1, ac y byddai'r adolygiad Cam 2 yn ystyried yr holl gyfnod a honnir.

Cafodd hawliad Mr S ei wneud i awdurdod lleol ar 13 Medi 2013, a'i drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yng Ngorffennaf 2014. Ar 16 Awst 2017, cafodd Mr S ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad Cam 1, ac y byddai'r adolygiad Cam 2 yn ystyried rhan o'r cyfnod a honnir. Mae hawliad Mr S bellach wedi'i wrthod.

---

<sup>1</sup> Pecyn o ofal a drefnir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer unigolion y tu allan i'r ysbyty sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus

Canfu'r Ombwdsmon fod y methiant i benderfynu ar yr hawliadau o fewn yr amserlen argymelledig, neu hyd yn oed o fewn amser rhesymol, yn gamweinyddu. Dioddefodd yr achwynwyr yr anghyfiawnder o beidio â gwybod a fyddai eu hawliadau'n llwyddo a, pe baent yn llwyddiannus, yr oedi wrth dderbyn ad-daliadau am y costau a achoswyd. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd lechyd ymddiheuro i'r achwynwyr, a gwneud taliad o £125 i bob un er mwyn cydnabod yr oedi sylweddol a brofant hwy.

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd lechyd hefyd yn gwneud taliad tebyg i bob hawliwr nad oedd eu hawliad wedi'i hadolygu fel ar 7 Medi 2017 ac a oedd wedi aros dros ddwy flynedd o ddyddiad derbyn yr hawliad gan y Bwrdd lechyd perthnasol.

Cytunodd y Bwrdd lechyd i gyflawni'r argymhellion.

## Y Gŵyn

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â thair cwyn, pob un yn gysylltiedig ag oedi wrth benderfynu ar ôl-hawliadau am ofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG ("CIC").<sup>2</sup> Gwnaed dau gŵyn (201702418 a 201702773) gan gwmni cyfreithwyr ar ran cleientiaid Mr P a Mr H, a gwnaed un gwyn yn uniongyrchol gan yr hawliwr, Mr S. Er hwylustod, byddaf yn cyfeirio at yr achwynwyr fel Mr P, Mr H a Mr S drwy'r adroddiad hwn.

2. Honnodd y tri achwynwr y bu oedi gormodol ym mhenderfyniad eu hawliadau. Ar yr amser y gwnaed y cwynion i mi, nid oedd yr un o'r hawlwr wedi cael penderfyniad o'u hawliad.

## Ymchwiliad

3. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan Fwrdd Iechyd Addysg Powys ("y Bwrdd Iechyd") a Llywodraeth Cymru ac ystyriais y rhain ar y cyd â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr achwynwyr. Nid wyf wedi cynnwys holl fanylion yr ymchwiliad yn yr adroddiad hwn, ond rwy'n fodlon bod popeth o bwys wedi cael sylw.

4. Cafodd pob achwynwr, Bwrdd Iechyd Addysg Powys a Llywodraeth Cymru'r cyfle i weld fersiwn drafft o'r adroddiad hwn, a chynnig sylwadau amdano, cyn y cyhoeddwyd y fersiwn terfynol.

## Ddeddfwriaeth berthnasol

5. Yn 2003, cyhoeddodd yr Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Lloegr bryd hynny adroddiad ar CIC.<sup>3</sup> Dangosodd ei hymchwiliad fod yr awdurdodau iechyd dan sylw yn defnyddio meini prawf gorgyfyngol i selio eu penderfyniadau ynghylch a oedd gan gleifion hawl i CIC mewn cartref gofal. Yn ogystal, ystyriodd hithau nad oedd y meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt yn unol â dyfarniadau cyfreithiol neu gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd Saesneg. Roedd hi'n bryderus y gallai eraill ar draws y wlad fod wedi dioddef anghyfiawnder tebyg i'r unigolion yn yr achosion yr oedd hi wedi

---

<sup>2</sup> Pecyn o ofal a drefnir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer unigolion y tu allan i'r ysbyty sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus

<sup>3</sup> Cyllid GIG am Gofal Hirdymor, HC 399, TSO, Chwerfor 2003.

ymchwilio. Argymhellodd y dylai'r cyrff GIG lleol adolygu'r meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt i benderfynu'r hawl i CIC a'r modd y cymhwyswyd y meini prawf hynny, ac y dylent geisio cydnabod yr holl gleifion yn eu hardal a allai fod wedi bod dan anfantais a chywiro unrhyw anghyfiawnder a achoswyd.

6. Er bod yr adroddiad yn ymdrin ag achosion yn Lloegr, derbyniwyd yn gyffredinol fod ei chanfyddiadau a'i hargymhellion hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Felly, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd bryd hynny) broses i adolygu ôl-hawliadau fod cleifion wedi'u hasesu'n anghywir fel rhai anghymwys i CIC. Am resymau sy'n ymwneud ag ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn 2003, disgynnodd unrhyw benderfyniadau am hawliadau'r cyfnod cyn 1 Ebrill 2003 i ddwylo'r Bwrdd Iechyd Lleol Powys (fel yr oedd bryd hynny). Ar ôl cwblhau'r rhain, sefydlwyd y broses ôl-weithredol CIC cyfredol ar gyfer Cymru gyfan gan y Bwrdd Iechyd ym Mehefin 2011 i adolygu'r 2,454 hawliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i ddyddiad cau ar gyfer hawliadau a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2009 a oedd yn cynnwys hawliadau a dderbyniwyd hyd 15 Awst 2010. Adnabyddir y rhain fel achosion "Cam 1".

7. Yn y cyfamser, roedd ôl-groniad o ôl-hawliadau newydd wedi bod yn adeiladu â'r byrddau iechyd unigol a oedd fod yn eu hadolygu. Penderfynwyd felly i drosglwyddo'r mwyafrif o'r hawliadau neilltuol a gyflwynwyd i'r byrddau iechyd unigol rhwng Awst 2010 ac Ebrill 2014 i'r Bwrdd Iechyd am ystyriaeth. Adnabyddir y rhain fel achosion "Cam 2".

8. Ym Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofal Parhaus; adran 6 a ymdrinnir â ôl-adolygiadau. Cyngorodd y Fframwaith na ddylai hawliadau Cam 2 'gymryd mwy na dwy flynedd i'w prosesu'.

9. Yn 2016, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd system newydd ar gyfer rheoli'r nifer mawr o achosion Cam 2 neilltuol. Casglodd y Bwrdd Iechyd nad oedd angen adolygu pob achos o'r holl gyfnod a ofynnwyd amdano. Cyflwynodd broses dau gam:

- i. Mae cronoleg o angen yn cael ei lunio gan ddefnyddio cofnodion Meddygon teulu a chynlluniau gofal ac asesiadau risg y darparwyr gofal, ystyrir y gronoleg yn erbyn Rhestr Wirio Gofal Iechyd

Parhaus y GIG a gyhoeddwyd yn 2012 ac a ddefnyddir yn Lloegr i adnabod a oes unrhyw sbardunau ar gyfer CIC yn berthnasol a, os felly, o ba ddyddiad (Cam 1).

- ii. Os adnabyddir sbardun, casglir cronoleg lawn o'r dyddiad hwnnw a adolygir yr achos drwy'r broses arferol (Cam 2).

10. Mae'r diffiniadau a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y canlynol:

- *Gweithredol* - mae'r hawliwr wedi cyflwyno'r holl ddogfennau angenrheidiol i ddechrau'r adolygu
- '*Adolygwyd*' - yr adolygu wedi'i gwblhau (e.e. yng Ngham 1 neu Gam 2) ond nid yw ad-daliad wedi'i wneud.

11. Mae'r prosiect sy'n ystyried yr achosion Cam 2 i'w derfynnu ar 31 Rhagfyr 2018, erbyn pryd y rhagwelir y bydd y mwyafrif o hawliadau Cam 2 wedi'u cwblhau.

## Y digwyddiadau cefndir

### Cŵyn Mr P

12. Ysgrifennodd Mr P i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 17 Mai **2013** yn gwneud ôl-hawliad am CIC i dalu parch i'w ddiweddar Fam, Mrs P. Roedd yr hawliad yn perthyn i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 i 5 Ebrill 2013. Cafodd Mr P wybod ar 11 Gorffennaf **2014** fod ei hawliad yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd "er mwyn sicrhau fod [y] cwyn yn cael ei ddelio'n effeithiol a phrydlon". Ar 11 Medi, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd eu bod yn y broses o gasglu cofnodion Mrs P er mwyn cwblhau'r gronfa. Ar 22 Tachwedd **2016**, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd eu bod wedi derbyn yr holl gofnodion ar gael. Ar 17 Awst **2017** (ar ôl cyflwyno'r gŵyn ataf), cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd ganlyniad yr adolygiad Cam 1 ac y byddai'r hawliad yn datblygu i adroddiad Cam 2 am ran o'r cyfnod a hawliodd Mr P (12 Ionawr 2006 ymlaen). Dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddent yn 'ymdrechu i gwblhau Adolygiad Cam 2 cyn gynted ag y bo modd', ond ni roddwyd unrhyw amcangyfrif o bryd fydd hynny.



## Cŵyn Mr H

13. Ysgrifennodd Mr H i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Mawrth **2013** yn gwneud ôl-hawliad am CIC i dalu parch i'r diweddar Mrs B, am y cyfnod rhwng 14 Tachwedd 2007 i 23 Ionawr 2011. Ar 31 Gorffennaf **2014**, cafodd Mr H wybod fod ei hawliad yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd. Dengys cofnodion y Bwrdd Iechyd fod ar 28 Gorffennaf **2015**, fe gadarnhawyd eu bod wedi derbyn yr holl gofnodion ar gael a bod yr hawliad yn aros dyraniad i Ymchwilydd Arbennig i lunio cronoleg o ddigwyddiadau. Ar 12 Rhagfyr **2016**, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd fod yr hawliad wedi ei ddyrannu i Ymchwilydd Arbennig. Ar 18 Awst **2017** (ar ôl cyflwyno'r gŵyn ataf), cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd ganlyniad yr adolygiad Cam 1 ac y byddai'r hawliad yn datblygu i adolygiad Cam 2 am yr holl gyfnod a hawliodd Mr H. Eto, dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddent yn 'ymdrechu i gwblhau Adolygiad Cam 2 cyn gynted ag y bo modd', ond ni roddwyd unrhyw amcangyfrif o bryd fydd hynny.

## Cŵyn Mr S

14. Ysgrifennodd Mr S i Gyngor Sir Conwy ar 13 Medi **2012** yn gwneud ôl-hawliad am CIC i dalu parch i'r diweddar Mr R, am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2007 i 15 Mawrth 2012. Ar **4 Gorffennaf 2014**, cafodd Mr S wybod fod ei hawliad yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd. Ar yr un diwrnod, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am gofnodion Mr R ar gyfer y cartref gofal lle bu'n byw rhwng y dyddiau perthnasol, ac ysgrifennodd eto i'r cartref gofal yn gofyn am y cofnodion ar 30 Hydref **2015**. Ar 8 Tachwedd **2016**, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd i Mr S eu bod wedi derbyn yr holl gofnodion ar gael a bod yr hawliad wedi ei ddyrannu i Ymchwiliwr Arbennig i gronoleg gael ei ysgrifennu. Serch hynny, dengys y cofnodion fod ar 19 Mai **2017**, ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd at y cartref gofal eto yn dynodi nad oeddent wedi derbyn cofnodion Mr R; ar 15 Gorffennaf, dynododd perchnogion (newydd) y cartref gofal nad oedd ganddynt unrhyw gofnodion yn gysylltiedig â Mr ac nad oedd wedi bod yn breswlydd pan ddaethant yn berchnogion ym Mehefin 2013. Ar Awst **2017**, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd canlyniad yr adolygiad Cam 1 ac y byddai'r hawliad yn datblygu i adolygiad Cam 2 am ran o'r cyfnod y hawliodd Mr S (17 Mawrth 2008 ymlaen). Cwynodd Mr S i fy swyddfa ar 31 Awst. Ar 15 Tachwedd, ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd i Mr S yn amgáu argymhelliad yr Ymgynghorydd Clinigol nad oedd Mr R yn gymwys i

gael GIP am unrhyw ran o'r cyfnod dan sylw. Er bod Mr S wedi herio'r asesiad hwn, rwyf yn deall fod ei hawliad bellach wedi ei wahardd.

## Tystiolaeth Y Bwrdd Iechyd

### Gwybodaeth rhagarweiniol

15. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd am ychydig o wybodaeth rhagarweiniol er mwyn galluogi fy swyddfa i benderfynnu a ddylid ymchwilio i'r cwynion gan Mr P a Mr H. Esboniodd yr heriau penodol wrth reoli achosion Cam 2:

- Cyfnodau hawlio hir o hyd at 13 mlynedd
- Mae gan y mwyafrif o achosion yr holl gofnodion sydd ar gael
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu pob cronoleg ar gyfer achosion Cam dau
- Anhawster wrth recriwtio clinigwyr
- Trosiant uchel o Ymchwilwyr Arbennig o ganlyniad i gytundebau cyfnod penodol

Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod yr hawliadau Cam dau wedi cymryd llawer mwy o amser a'u bod yn llawer mwy cymhleth na ddisgwyliwyd. Dywedodd fod 941 o achosion wedi'u trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yn 2014 gan y byrddau iechyd eraill sy'n gysylltiedig, ac roedd 379 ohonynt yn aros i gael eu cwblhau ar Awst 2017 (roedd y nifer hwn wedi gostwng i 290 erbyn Chwefror 2018).

16. Esboniodd y Bwrdd Iechyd y broses newydd a sefydlwyd ym Medi 2016 (gweler paragraff 9). Dywedodd fod yr hawliadau wedi symud ymlaen drwy'r adolygiad Cam 1, a bod yr oedi wrth gwblhau'r hawliadau wedi cael ei achosi gan broblemau recriwtio Ymgynghorwyr Clinigwyr a oeddent yn ceisio ei ddatrys. Dywedodd eu bod hefyd yn ceisio cyflymu'r broses drwy roi fwy o rôl i Uwch-ymchwilwyr Arbennig wrth baratoi adolygiadau i'r Ymgynghorwyr Clinigol.

17. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod yr hawliadau yn cael eu hadolygu mewn trefn gronolegol, a bod hawliadau Mr P a Mr H tua hanner ffordd i lawr y rhestr o'r 330 hawliadau i'w hadolygu.

## **Cwynion Mr P a Mr H**

18. Darparodd y Bwrdd Iechyd rhagor o wybodaeth ar ôl i ymchwiliad i gwynion Mr P a Mr H ddechrau. Dywedodd fod yr ymarfer recriwtio diweddar wedi penodi tri Ymgynghorydd Clinigol newydd, a disgwylir iddynt ymgymryd â'u swydd yn Hydref 2017, gan gymryd y cyflenwad o Ymgynghorwyr i'r cyfwerth a naw aelod staff llawn amser. Bwriad y Bwrdd Iechyd oedd ail-hysbysebu i lenwi gweddill y swyddi gweigion (3.6 cyfwerth ag llawn amser). Dywedodd y Bwrdd Iechyd eu bod wedi recriwtio ym Medi 2017 y cyfwerth o 3.8 Uwch-Ymchwilyr Arbennig llawn amser, gyda'u rôl yn cael ei ddatblygu'r bellach i gyflawni mwy o'r gwaith paratoi ar gyfer yr Ymgynghorwyr Clinigol. Dywedodd fod hyn o fudd er mwyn caniatáu Ymgynghorwyr Clinigol i ganolbwyntio ar gwblhau dadansoddiad clinigol o'r wybodaeth.

19. Dywedodd y Bwrdd Iechyd, yn gryno; ers i'r broses Cam 1/ Cam 2 gael ei gyflwyno ym Medi 2016, arbedwyd cryn amser wrth baratoi cronolegau, gan ganiatáu i Ymgynghorydd Clinigol ddechrau ar adolygiad (Cam 2) rhyw 12 diwrnod yn gynharach nag o dan y broses flaenorol. Dywedodd fod y cyfnodau hawlio cyffredinol i'w hadolygu yng Ngham 2 wedi gostwng o 489 mlynedd, gan ganiatáu i'r Ymgynghorydd Clinigol ganolbwyntio ar y dadansoddiad o anghenion gofal iechyd yr unigolyn. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod Mr P a Mr H wedi aros amser estynedig, ac ymddiheurodd am unrhyw ofid ychwanegol a achosir gan hyn.

## **Cŵyn Mr S**

20. Dywedodd y Bwrdd Iechyd (ar 19 Hydref 2017) fod hawliad Mr S ar y pryd yn aros am ddyraniad i Ymchwilydd Arbennig ar gyfer cwblhau cronoleg Cam 2, rhagwelwyd y byddai hyn yn dechrau o fewn dwy wythnos ac y byddai argymhelliad ar gymhwyster yn cael ei wneud o fewn tair i chwe mis. Cydnabod y Bwrdd Iechyd eto fod Mr S wedi bod yn aros am gyfnod estynedig a ymddiheurodd am hyn.

## **Dadansoddiad a Chasgliadau**

21. Mae pob tri o'r cwynion hyn yn ymwneud â'r hyn y mae'r achwynwyr yn credu i fod yn oedi gormodol wrth benderfynu ar eu ôl-hawliadau am CIC.

Mae'r oedi sy'n ymwneud â phob un o'r tri yn debyg, er bod hawliad Mr S wedi ei wneud rhyw chwe mis cyn rhai Mr P a Mr H. Serch hynny, trosglwyddwyd pob un o'r tri cŵyn i'r Bwrdd Iechyd yn ystod Gorffennaf 2014, a bu'r tri achwynwr yn aros nes Awst 2017 i'r adolygiad Cam 2 gael ei gwblhau. Felly, gallaf drefnu fy nghasgliadau yn gyffredinol yn hytrach nag mewn perthynas â phob cwyn ar wahân. Hoffwn amlygu fod yr adroddiad hwn, ac yn arbennig y casgliadau a'r argymhellion hyn, yn ymwneud â hawliadau Cam 2 yn unig.

22. Rwy'n ymwybodol fod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn nifer fawr o hawliadau Cam 2. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r anawsterau wrth recriwtio y mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfeirio ato, a waethygyd gan natur y cytundebau cyfnod penodol. Serch hynny, erys y ffaith fod y Bwrdd Iechyd wedi methu i gydymffurfio â chynghor Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn y Fframwaith 2014 - na ddylid yr hawliadau hyn gymryd mwy na dwy flynedd i'w cwblhau. Mae pob un o'r tri achwynwr wedi bod yn disgwyl mewn gormodedd o dair blynedd am benderfyniad o'u hawliadau; hawliad Mr S yn unig sydd wedi'i hystyried yng Ngham 2, ac nid wyf wedi derbyn unrhyw arwydd o bryd y bydd unrhyw un o'r hawliadau yn debygol o ddod i gasgliad.

23. Mae'r methiant i bennu'r hawliadau hyn o fewn y ffram amser argymelledig, neu hyd yn oed o fewn amser rhesymol, yn gamweinyddu. Cytunaf â'r achwynwyr pan ddywedant fod eu haros wedi bod yn ormodol. Mae'r anghyfiawnder i'r achwynwyr yn amlwg; ar y tra lleiaf, mae'r ansicrwydd o beidio â gwybod a fydd eu hawliadau yn llwyddo, ac yn ychwanegol, pe baent yn llwyddiannus, yr oedi wrth dderbyn yr ad-daliad am y costau a achoswyd am y cyfnod dan sylw (er rwyf yn nodi fod llog yn cael ei dalu mewn parch ag unrhyw hawliadau llwyddianus). Felly, rwy'n **cadarnhau**'r cwynion hyn.

24. Yn olaf, mae'n amlwg fod y tri hawliwr sydd wedi cwyno i mi am yr oedi yn ddim ond namyn o'r nifer mawr o hawlwr sydd wedi bod yn aros am gyfnod gormodol am benderfyniad o'u hawliad. Nid wyf wedi gweld dim i awgrymu fod yr hawlwr hyn wedi'u trin mewn unrhyw ffordd lai ffafriol nag unrhyw un eraill; yn wir, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud fod hawliadau yn cael eu delio mewn trefn gronolegol, sydd, wrth gwrs, yn ffordd resymol i'r Bwrdd Iechyd fynd ati. Dywedodd y Bwrdd Iechyd yn Awst 2017 fod yna rhyw 330 hawliadau o hyd i'w adolygu. Yn ôl pob tebyg, ers hynny, mae'r

Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gwblhau'r rhain, ond mae'n debyg bod nifer fawr o hawliadau heb eu penderfynu o hyd. Credaf fod gan yr hawlwr hyn yr hawl i'r un iawndal â'r tri achwynwr, a bwriadaf y bydd fy argymhellion yn adlewyrchu hyn.

## Argymhellion

25. Nid wyf yn credu fod unrhyw beth i'w ennill drwy wneud unrhyw arghymhellion o natur weithredol. Wrth gyrraedd y casgliad hwn, rwyf wedi cadw mewn cof yr ymdrechion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud i ddelio a'r hawliadau neilltuol mor amserol â phosib, yn ogystal â ddyddiad cau arfaethedig y prosiect. Felly, rwy'n gwneud yr argymhellion canlynol:

26. Rwy'n **argymell** y dylai'r Bwrdd Iechyd o fewn un mis o gyhoeddi'r adroddiad terfynol:

- a) Ymddiheuro i Mr P, Mr H a Mr S am yr oedi wrth benderfynnu eu ôl-hawliadau.
- b) Cynnig tâl o £125 i bob achwynwr mewn cydnabyddiaeth i'r cryn oedi y maent hwy wedi profi.


27. Rwy'n **argymell** y dylai'r Bwrdd Iechyd, o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad terfynol, gynnig yr un taliad i bob hawliwr nad oedd eu hawliad wedi'i adolygu cyn 7 Medi 2017 ac a oedd wedi bod yn aros dros ddwy flynedd o ddyddiad yr hawliad yn cael ei weithredu.

28. Rwyf yn falch o nodi bod Bwrdd Iechyd Addysg Powys wrth gyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



**Nick Bennett**  
Ombwdsmon

25 Gorffennaf 2018



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150  
Ffacs: 01656 641199  
Ebst: [holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk](mailto:holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk)  
Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)